

CYFARFOD:	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD:	7 MEDI 2023
TEITL:	ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2022-23
PWRPAS:	Cyflwyno'r adroddiad drafft i'r Pwyllgor i'w adolygu a'i gymeradwyo cyn ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor llawn
GWEITHREDIAD:	Cynnig sylwadau a chymeradwyo'r adroddiad
AWDUR:	SHARON WARNES, CADEIRYDD Y PWYLLGOR
SWYDDOG CYSWLLT:	DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID

1. Cyflwynir gerbron y Pwyllgor yr adroddiad blynyddol sy'n cwmpasu ei waith dros y flwyddyn 2022/23, gan amlygu sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol, a sut mae'n ychwangu gwerth i drefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd.
2. Hwn yw'r tro cyntaf i adroddiad blynyddol o'r fath gael ei baratoi, ond mae CIPFA yn argymhell yn gryf y dylid gwneud hynny. Bydd nifer o aelodau'r Pwyllgor eisoes yn gyfarwydd ag adroddiadau cyfatebol sy'n cael eu paratoi gan bwyllgor eraill e.e. y Pwyllgor Safonau, a'r adroddiad blynyddol craffu.
3. Mae canllawiau CIPFA yn nodi:

“Dylai'r pwyllgor baratoi adroddiad blynyddol sy'n rhoi sicrwydd i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu ei fod yn cyflawni ei bwrpas ac yn gallu dangos ei effaith”.

4. Atodir Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 i sylw'r Pwyllgor. Bwriedir ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 28 Medi.

Argymhelliad

5. Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys yr adroddiad, cynnig sylwadau ac addasiadau, a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol.

Atodiad:

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23